



Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

Adroddiad Monitro Safonau'r Gymraeg

Wedi'i baratoi yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

**Yn seiliedig ar ddata a gofnodwyd rhwng
1 Awst 2023 hyd at 31 Gorffennaf 2024**



Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn mewn fformatau eraill ar gais.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau am yr adroddiad monitro hwn, anfonwch e-bost at y Brifysgol ar iaithgymraeg@pcydds.ac.uk.

Cynnwys

1. Cyflwyniad
2. Cyd-destun
3. Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd
4. Trefniadau Cydymffurfio â'r Safonau
 - 4.1. Cydymffurfiaeth Safonau Darparu Gwasanaeth
 - 4.2. Cydymffurfiaeth Safonau Llunio Polisi
 - 4.3. Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu
5. Codi Ymwybyddiaeth a Hyrwyddo'r Gymraeg
6. Cwynion
7. Sgiliau Iaith Gymraeg Staff
8. Cyrsiau Dysgu a Datblygu Sgiliau Cymraeg
9. Cyrsiau Hyfforddi Cyfrwng Cymraeg
10. Swyddi a Hysbysebwyd

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn adrodd ar gydymffurfiaeth Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wrth gyflawni gofynion Safonau'r Gymraeg, a thrwy hynny yn darparu gwerthusiad y Brifysgol o'r modd y mae'n hybu a hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae'r adroddiad yn seiliedig ar y cyfnod o 1 Awst 2023 hyd 31 Gorffennaf 2024.

Yn ystod y flwyddyn academiaidd 2023/24, parhaodd y Brifysgol â'i dyletswydd i weithredu gofynion Safonau'r Gymraeg. Fel y nodir yn yr adroddiad hwn, mae hyn wedi cynnwys codi ymwybyddiaeth o ofynion y Safonau, drwy gynnal sesiynau ymgysylltu gydag adrannau ac athrofeydd, cynnal ymarferion hunanasesu, darparu cyngor a chanllawiau, ynghyd â sicrhau bod adroddiadau cyson yn cael eu cyflwyno yn y pwyllgorau priodol.

At hyn, mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ymgorffori a phrif ffrydio Safonau'r Gymraeg yn unol â'n Strategaeth Iaith Gymraeg (2022-2026), sydd â'r nod o fynd y tu hwnt i gydymffurfio a gwella amgylchedd dwyieithog. Mae'r Strategaeth hon yn gosod gweledigaeth y Brifysgol ar gyfer hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg, drwy ehangu a datblygu'r ddarpariaeth academiaidd, y gwaith ymchwil a'r gweithgaredd ysgolheigaidd cyfrwng Cymraeg, ynghyd â gweithredu gofynion Safonau'r Gymraeg; a thrwy hyn gwreiddio ethos dwyieithog ar draws pedwar campws y Brifysgol yng Nghymru. Mae'r Strategaeth yn sail i gynyddu'r cyfleoedd i fyfyrwyr dwyieithog arfer eu Cymraeg, ac i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ynghyd â chynyddu'r nifer o fyfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gweithredu gofynion Safonau'r Gymraeg yn rhan integredig o weithredu'r Strategaeth. Mae hyn yn dangos ein hymrwymiad i chwarae ein rhan yn yr ymdrech genedlaethol i gynyddu nifer siaradwyr y Gymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae'r adroddiad hwn yn gosod ein cydymffurfiaeth â'r Safonau ac yn cyflwyno data angenrheidiol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24, sy'n cynnwys ein trefniadau cydymffurfio, adrodd ar gwynion, sgiliau iaith ein gweithwyr, nifer y swyddi a hysbysebwyd lle bod angen sgiliau yn y Gymraeg i'w cyflawni, ynghyd â chysiau i ddysgu neu ddatblygu sgiliau iaith. Er bod gwelliannau i'w gwneud o hyd, nodwn ein bod wedi gwneud cynnydd o ran gwella darpariaeth cyfrwng Cymraeg ein gwasanaethau.

2. Cyd-destun

Ers 1 Ebrill 2018, mae prifysgolion yng Nghymru yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (rhif 6) 2017 a sefydlwyd o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn sicrhau bod i'r Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru, ac yn seiliedig ar ddwy egwyddor:

- yng Nghymru, ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Mae hefyd yn fodd o sefydlu fframwaith cyfreithiol sy'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gydymffurfio â safonau penodol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, sy'n sefydlu hawliau a chyfleoedd cyfartal i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith. Mae'r Safonau sydd wedi'u gosod ar y Brifysgol wedi'u cynnwys yn yr Hysbysiad Cydymffurfio.

Mae'r Brifysgol wedi manylu sut y bydd yn bwriadu cydymffurfio â'r Safonau ynghyd â sut y bydd yn hybu a hwyluso'r iaith Gymraeg yn ein Cynllun Cydymffurfio, sydd wedi'i gyhoeddi ar wefan y Brifysgol.

Yn unol â gofynion y Safonau, rhaid i'r Brifysgol gynhyrchu adroddiad monitro sy'n cyfateb i'r flwyddyn ariannol flaenorol, ac yn trafod sut mae'r Brifysgol wedi cydymffurfio â'r Safonau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o fewn 6 mis i ddiwedd y flwyddyn ariannol sy'n gysylltiedig â'r adroddiad, a rhoi cyhoeddusrwydd ein bod wedi cyhoeddi'r adroddiad.

Rhaid cynnwys y materion canlynol yn yr adroddiad:

- **Cydymffurfiaeth gyda'r Safonau**

Y modd y gwnaeth y Brifysgol gydymffurfio â'r Safonau yr oedd hi dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw (fesul dosbarth o safonau: Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llundain Polisi, Safonau Gweithredu.)

- **Sgiliau Cymraeg y Gweithlu**

Nifer y staff sydd â graddau gwahanol o Sgiliau iaith Gymraeg, erbyn diwedd y cyfnod dan sylw.

- **Hyfforddiant**

Nifer y staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn; os cynigwyd fersiwn Saesneg o gwrs yn ystod y flwyddyn, y ganran o'r holl fynychwyr wnaeth fynychu'r fersiwn Cymraeg.

- **Swyddi**

Nifer y swyddi gwag a newydd a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn, a gafodd eu hasesu am sgiliau yn y Gymraeg, a'u categorioedd fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys:

- bod sgiliau yn y Gymraeg yn **hanfodol**
- bod **angen dysgu sgiliau** yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd
- bod sgiliau yn y Gymraeg yn **ddymunol**; neu
- sgiliau yn y Gymraeg **ddim yn angenrheidiol** ar gyfer y rôl

- **Cwynion**

Nifer y cwynion a dderbyniwyd (fesul dosbarth o safonau: Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, Safonau Llundain Polisi, Safonau Gweithredu.)

3. Cyfrifoldeb ac Atebolrwydd

Ar lefel arweinyddiaeth strategol, Is-ganghellor y Brifysgol sydd â'r cyfrifoldeb dros oruchwylio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg. Trafodir yr holl faterion sy'n ymwneud â'r Safonau ym mhrif Bwyllgor Cymraeg y Brifysgol. Yn ystod y flwyddyn academaidd a fu bu'r cyfrifoldeb am oruchwylio cydymffurfiaeth fewnol Safonau'r Gymraeg gyda'r Adran Llywodraethu Corfforaethol, gyda Swyddog Safonau'r Gymraeg yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer holl staff y sefydliad yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg, yn ogystal â chefnogi'r disgyblaethau academaidd a'r unedau proffesiynol o ddydd i ddydd.

Y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg

Yn ychwanegol at y trefniant uchod, ac fel ffordd o hybu a hwyluso defnydd y Gymraeg tu hwnt i ofynion Safonau'r Gymraeg, mae'r Brifysgol yn cynnal Canolfan Gwasanaethau Cymraeg, sy'n gyfrifol am y canlynol:

- goruchwylio Strategaeth Iaith Gymraeg y Brifysgol
- hyfforddiant iaith Gymraeg i staff a myfyrwyr ar draws y Brifysgol
- datblygu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn strategol
- darparu adnoddau Cymraeg a chyfrwng Cymraeg i'r sector addysg yng Nghymru a thu hwnt.

Mae'r Ganolfan hefyd yn gartref i Gangen y Brifysgol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ac erbyn hyn yn cynnwys y Tîm Cyfieithu sy'n darparu gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd.

Pwyllgor Y Gymraeg

Mae gan y Pwyllgor hwn rôl benodol i fonitro gweithrediad Safonau Iaith Gymraeg y Brifysgol, ynghyd â bod yn gyfrifol am oruchwylio materion sy'n ymwneud â darpariaeth Gymraeg a dwyieithog a phrofiad myfyrwyr sy'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r pwyllgor hwn yn adrodd yn uniongyrchol i Senedd y Brifysgol ac fe'i cadeirir gan Gyfarwyddwr Canolfan Gwasanaethau Cymraeg y Brifysgol.

Is-bwyllgorau'r Gymraeg

Mae'r Brifysgol hefyd wedi sicrhau perchnogaeth o'r Safonau a'r holl faterion iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg ar draws y sefydliad trwy greu'r is-bwyllgorau canlynol:

- Is-bwyllgor y Gymraeg o fewn pob un o'r 3 Athrofa Academaidd
 - Is-bwyllgor Cymraeg Yr Athrofa Addysg a'r Dyniaethau
 - Is-bwyllgor Cymraeg Yr Athrofa Gwyddoniaeth a Chelf
 - Is-bwyllgor Cymraeg Yr Athrofa Rheolaeth ac Iechyd
- Rhwydwaith y Gymraeg Gwasanaethau Proffesiynol – yn cynnwys cynrychiolaeth o bob un o unedau gwasanaethau cymorth a phroffesiynol y Brifysgol.

Mae'r Pwyllgorau hyn yn derbyn adroddiadau i adolygu cynnydd yn erbyn Strategaeth y Gymraeg ynghyd â'r dyletswyddau statudol o dan reoliadau Safonau'r Gymraeg. At hyn, mae gan y pwyllgorau rôl benodol i ddatblygu a gwella defnydd o'r Gymraeg ar draws y Brifysgol, ac yn enwedig yng nghyd-destun gweithredu a monitro cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg. Mae cyfarfodydd yr is-bwyllgor yn cael eu bwydo'n ôl i brif bwyllgor yr Iaith Gymraeg gan y Cadeiryddion.

Hwyluswyr y Gymraeg

Mae'r cyfarfodydd hyn yn cynnwys hwyluswyr y Gymraeg sydd wedi'u dynodi ym mhob Ysgol ac Uned ac sy'n cwrdd naill ai fel aelodau o Is-bwyllgorau Cymraeg yr Athrofeidd neu drwy Rhwydwaith y Gymraeg y Gwasanaethau Proffesiynol.

Mae'r unigolion hyn hefyd yn cwrdd i drafod arfer da a syniadau ac yn gweithredu fel rhwydwaith ar Teams rhwng cyfarfodydd i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cyflenwi a'u hyrwyddo'n briodol.

4. Trefniadau Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg

Hunanasesu

Fel ffordd o oruchwyllo a hwyluso cydymffurfiaeth y Brifysgol â'r Safonau ymhellach, mae prosiect ymgysylltu ar waith, lle mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu gyda'r unedau proffesiynol a'r athrofeidd yn unigol i drafod y Safonau sy'n berthnasol iddynt ac i gydweithio arnynt. Yn rhan o hyn mae proses ar waith ar gyfer archwiliadau mewnol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth ac ansawdd profiad. Gofynnir i'r adrannau hunanasesu eu hunain yn erbyn y Safonau sy'n berthnasol i'w hadrannau unigol. Pwrpas yr hunanasesiad yw atgoffa rheolwyr o ofynion y Safonau laith a rhoi cyfle iddynt osod sylfeini ar gyfer datblygiad pellach. At bwrpas y prosiect, rydym wedi adnabod deuddeg ardal gwasanaeth a thair athrofa. Hyd yma rydym wedi gweithio gyda chwe maes gwasanaeth, ac mae pump ohonynt wedi datblygu cynlluniau gweithredu. Mae'n cymryd tipyn o amser i gyd-weithio gyda'r adrannau i sefydlu pa Safonau sy'n berthnasol i'w maes gwaith; ond unwaith mae hyn wedi'i sefydlu mae modd cynnal asesiad a chreu cynllun gweithredu. Caiff y cynlluniau gweithredu eu monitro drwy Is-bwyllgor Rhwydwaith y Gymraeg.

Arolygon Hap

Fel rhan o'n gweithdrefnau hunanreoleiddio parhaus, byddwn yn gofyn i aelodau Pwyllgor Rhwydwaith y Gymraeg am eu cydweithrediad i gynnal arolygon ar hap; yn ystod y cyfnod adrodd hwn rhoddwyd y sylw pennaf i lofnod e-byst ac ar gyfer negeseuon allan o'r swyddfa.

Gweithredu yn dilyn Cŵyn

Yn ystod y flwyddyn, ymatebodd y Brifysgol i bwyntiau gweithredu Comisiynydd y Gymraeg yn dilyn ymchwiliad ar sail cŵyn. Rhoddwyd cyflwyniad ynghylch y pwyntiau gweithredu gofynnol i'r Uwch Dîm Gwasanaethau Proffesiynol, a gofynnwyd i'r rheolwyr perthnasol nodi'r camau gweithredu angenrheidiol o fewn eu maes gwasanaeth er mwyn mynd i'r afael â'r mater. Yn dilyn hyn cymerwyd camau gweithredu allweddol er mwyn sicrhau bod y Brifysgol yn medru cydymffurfio gyda'r gofynion, fel a ganlyn:

- **Safon 5:** Diwygio Canllaw Defnyddio'r Gymraeg Mewn Gohebiaeth, sy'n gosod y drefn bod rhaid i PCYDDS sicrhau bod unrhyw ohebiaeth cyntaf a anfonir at bersonau yn cael ei hanfon yn Gymraeg neu'n ddwyieithog (oni bai bod PCYDDS yn gwybod nad yw'r person dan sylw yn dymuno derbyn gohebiaeth gan y Brifysgol yn y Gymraeg).
- **Safon 7:** Diwygio templedi papur pennawd a lofnod e-bost, ynghyd â'r canllaw dilynol i sicrhau bod staff yn cael cyfarwyddyd i gynnwys y datganiad sy'n bodloni pob elfen o Safon 7 mewn gohebiaeth; ynghylch croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn nodi na fydd ateb gohebiaeth yn Gymraeg yn achosi oedi.

- **Safon 53:** Cynnal prosiect gyda'r Gofrestrfa i ddiwygio ffurflen gais ar-lein er mwyn sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn medru cyflwyno cais i astudio o fewn y Brifysgol yn Gymraeg, waeth beth fo'r iaith y darperir y cwrs.
- **Safon 55:** Cefnogi'r Adran Farchnata yn y gwaith o ddatblygu a chyhoeddi gwefan newydd, drwy sicrhau bod testun pob tudalen ar y wefan newydd ar gael yn Gymraeg ac nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Y Wefan

Yn ganolog i hyn bu'r gwaith o sicrhau bod y wefan ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac yn gwbl weithredol yn y naill iaith neu'r llall; gyda botwm ar frig pob tudalen i alluogi dewis iaith. Yn unol â lansio'r wefan newydd ym mis Chwefror, sefydlwyd y polisi gan Adran y We, na fydd unrhyw wybodaeth ar y wefan yn cael ei uwch lwytho hyd nes y bydd fersiwn Cymraeg a Saesneg ar gael. Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn gweithio'r un mor hwylus â'r Saesneg, ac yn darllen mewn Cymraeg clir, rhoddwyd trefniadau dros dro yn eu lle i olygu'r cynnwys Cymraeg.

Yn unol â lansio'r wefan newydd, aethpwyd ati i adolygu a diweddarau gwybodaeth ar dudalen Safonau'r Gymraeg, a thrwy hynny darparu gwybodaeth i'n defnyddwyr o'r gwasanaethau Cymraeg sydd ar gael iddynt drwy'r Brifysgol.

[Safonau'r Iaith Gymraeg.](#)

Gwaith Monitro Comisiynydd y Gymraeg

Yn flynyddol mae Comisiynydd y Gymraeg yn cyhoeddi adroddiad sicrwydd yn seiliedig ar eu gwaith monitro parhaus (yn cynnwys arolygon siopwr dirgel ac ymatebion holiadur hunanasesu blynyddol). Pwrpas yr adroddiad sicrwydd yw rhoi barn ar sut mae sefydliadau'n cydymffurfio a'u dyletswyddau statudol yn unol â Safonau'r Gymraeg. Mae canlyniadau'r gwaith monitro hwn yn destun cyfarfod adolygu cydymffurfiaeth blynyddol a gynhelir rhwng y Brifysgol a Chomisiynydd y Gymraeg. Yn dilyn cyfarfod ym mis Mawrth, roedd camau dilynol y cytunwyd arnynt yn ymwneud yn bennaf â chywiro testun ar y wefan; sicrhau bod dogfen Saesneg yn rhoi gwybod bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg; sicrhau bod ffurflenni yn gweithio'n llawn yn Gymraeg gan gynnwys sicrhau bod y ffurflen 'cysylltu â ni' yn gweithio'n llawn yn y Gymraeg. Aethpwyd i'r afael â'r materion hyn, gan ddarparu tystiolaeth a oedd yn bodloni swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

4.1 Cydymffurfiaeth Safonau Darparu Gwasanaethau (Safonau 1-92a)

Mae'r Safonau Cyflenwi Gwasanaeth yn nodi sut rydym yn darparu gwasanaethau a gwybodaeth i fyfyrwyr, darpar fyfyrwyr a'r cyhoedd. Ein nod yw sicrhau y gall personau ymgysylltu â'r Brifysgol yn eu dewis iaith ar bob achlysur. Mae'r Brifysgol wedi rhoi trefniadau yn eu lle er mwyn medru holi a chofnodi dewis iaith, yn ystod y cyswllt cyntaf, gyda darpar fyfyrwyr neu fyfyrwyr sydd wedi cofrestru am le, fel a ganlyn:

- **Cyswllt gyda darpar fyfyrwyr wrth holi am gyrsiau neu ddiwrnodau agored.**
Cyflwynwyd system CRM (HubSpot) yn dilyn proses gaffael a gynhaliwyd ym mis Awst 2022. Mae'r system CRM yn newydd i'r Brifysgol ac fe'i defnyddiwyd gyntaf ar gyfer derbyn archebion Diwrnod Agored mis Mehefin 2023. Mae'r ffurflenni yn holi am ddewis iaith, ac fe gaiff hyn ei gofnodi ar CRM. Bydd llifoedd gwaith yn gwirio'r dewis iaith cyn anfon unrhyw ohebiaeth, ac o ganlyniad yn danfon gohebiaeth yn yr iaith ddewisol.

- **Cyswllt gyda myfyrwyr wrth iddynt ymgeisio am gwrs.**

Mae pob ymgeisydd i'r Brifysgol yn cael mynediad i borth MyTSD, ac wrth i'r ymgeisydd logio mewn am y tro cyntaf, gofynnir cwestiwn ynghylch eu dymuniad i dderbyn gohebiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae llifoedd gwaith yn gwirio'r iaith a ffefrir cyn anfon unrhyw ohebiaeth.

- **Cyswllt gyda myfyrwyr wedi iddynt gael eu derbyn ar gwrs,** bydd angen i'r ymgeisydd gofrestru cyn i'r cwrs ddechrau, ac mae'r broses hon hefyd yn holi am ei ddewis iaith.

Caiff staff eu hatgoffa'n rheolaidd o ofynion dyletswydd ac o ganllawiau'r Brifysgol yn y bwletin wythnosol; at hyn mae Cadeiryddion ynghyd â holl aelodau is-bwyllgorau'r Gymraeg yn cael eu hannog i rannu unrhyw wybodaeth neu ganllawiau sy'n cael ei gyhoeddi. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi bod yn tynnu sylw at ddefnyddio llofnod e-bost dwyieithog. Mae yna dempled ar 'SharePoint' y gall staff ei ddefnyddio, sy'n cynnwys troednodyn yn croesawu cyfathrebu yn y Gymraeg. Wrth gynnwys y troednodyn hwn mae'r holl negeseuon e-bost a anfonir o'r Brifysgol yn cynnwys neges sy'n croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg, fel a ganlyn:



Croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb oedi.

You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without delay.

Fe roddwyd sylw hefyd i'r angen i gynnwys neges allan o'r swyddfa dwyieithog, ac at y pwrpas hwnnw cyhoeddwyd templedi enghreifftiol ar y fewnwyd. Mae staff sydd â sgiliau Cymraeg yn cael eu hannog i wisgo laniardau sy'n nodi eu bod yn siaradwyr Cymraeg neu ddysgwyr, fel bod defnyddwyr yn gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Rhoddwyd gwybod drwy'r bwletin wythnosol bod y laniardau ar gael ymhob derbynfa ar bob campws ar gyfer eu casglu.

Arddangosir posteri ym mhob derbynfa yn rhoi gwybod bod gwasanaeth Cymraeg ar gael, gyda chyfeiriad e-bost ar gyfer unrhyw ymholiadau yn ymwneud â'r Gymraeg. Mae'r Adran Hwb yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth derbynfa ar gyfer myfyrwyr a'r cyhoedd; mae aelodau o staff wedi derbyn hyfforddiant ac yn ymwybodol o sut i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog. Mae templedi wedi'u rhannu, fel bod staff yn ymwybodol o'r angen i ateb y ffôn gyda chyfarchiad dwyieithog, gan ddefnyddio'r Gymraeg yn gyntaf, a sut i drosglwyddo'r alwad i siaradwr Cymraeg os nad ydynt yn gallu darparu gwasanaeth Cymraeg yn bersonol.

Er mwyn hyrwyddo a hwyluso'r gwaith o weithredu'r Safonau, mae'r Brifysgol wedi creu gofod o'r newydd ar y fewnwyd; tudalennau 'Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg' sy'n cynnwys cyfres o ganllawau ac adnoddau i staff. Yn eu plith mae gwybodaeth a chanllawiau ar y canlynol:

- Cefndir a gwybodaeth gyffredinol am y Safonau
- Ateb y ffôn
- Gohebiaeth
- Trefnu a chynnal cyfarfodydd
- Hawliau myfyrwyr
- Hyfforddiant dysgu a datblygu sgiliau iaith
- Canllawiau cyfieithu Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant
- Troednodyn ac atebion mewn negeseuon e-bost
- Llofnod e-bost

Mae'r gofod ar y fewnwyd ar ei ffurf gynnar ar hyn o bryd, a'r nod yw datblygu'r adnodd ymhellach er mwyn hysbysu a chefnogi staff ynghylch gofynion Safonau'r Gymraeg. Er mwyn tynnu sylw at yr adnodd, trefnwyd lansiad meddal gan ddefnyddio microsoft forms i holi am sylwadau.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn, gyda 75% o'r ymatebion yn nodi'r sgôr uchaf ynghylch eu profiad o ddefnyddio tudalennau *Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg*. Cafwyd sylwadau megis 'mae'r deunydd yn eglur ac yn hylaw iawn'.

Mae'r Brifysgol wedi creu e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith, sy'n gwrs gofynnol i'r holl staff ac mae'n un o'r cyrsiau cynefino i weithwyr newydd. Rhoddir gwybodaeth ar gyd-destun hanesyddol yr iaith Gymraeg, manteision dwyieithrwydd ac eglurhad o'r Safonau, a'r angen i gydymffurfio â'r hyn swydd wedi'i gynnwys yn y Canllawiau. Mae'r e-fodiwl yn cyfeirio staff at y Canllawiau.

Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i Hyfforddiant Defnyddio'r Gymraeg Mewn Cyfarfodydd, wedi'i drefnu gan Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, a llwyddwyd i ennyn diddordeb pedwar aelod o staff o amrywiol unedau i fynychu'r hyfforddiant.

Mae'r Gwasanaeth Cyfieithu yn rhan allweddol o'r seilwaith sy'n cefnogi defnydd yr iaith Gymraeg ar draws y sefydliad. Yn ystod y flwyddyn dan sylw, trosglwyddwyd Uned Gyfieithu'r Brifysgol i'r Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg, ac mae'n darparu gwasanaeth cyfieithu testun a chyfieithu ar y pryd ar gyfer aelodau staff. Ar hyn o bryd, mae'r Uned yn cael ei hadolygu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn addas at bwrpas a bod digon o gapasiti gan y gwasanaeth i gyflawni gofynion y Brifysgol. Un o ganlyniadau'r adolygiad yw cynyddu'r tîm i gynnwys penodiad golygydd cyfieithu.

Darparwyd cyngor yn rheolaidd hefyd i unedau proffesiynol amrywiol fel yr Uned Gyllid, yr Uned Gwasanaethau Myfyrwyr, yr Uned Farchnata, Yr Uned Ymchwil a Datblygu, Y Gofrestrfa ac ardaloedd Derbynfa'r campysau amrywiol. Roedd y Cyngor yn amrywio o ddarparu arweiniad ar weithredu Safonau'r Gymraeg yn ogystal â thrafod ac adnabod cyfleoedd i ddatblygu'r defnydd o'r Gymraeg.

4.2 Cydymffurfiaeth Safonau Llundio Polisi (Safonau 94-104)

Mae'r Safonau Llundio Polisi yn ei gwneud yn ofynnol i'r Brifysgol:

- ystyried effeithiau ein penderfyniadau polisi ar y Gymraeg (cadarnhaol a negyddol)
- ystyried sut i gynyddu effeithiau positif, lliniaru neu leihau effeithiau negyddol a manteisio ar bob cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae gan y Brifysgol fframwaith asesu effaith Cydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg. Cyn cyflwyno polisi newydd i'w gymeradwyo, rhaid i'r rheolwr priodol gwblhau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb a'r Gymraeg; ac wrth gyflwyno papurau i bwyllgorau, mae pob rheolwr yn llenwi tudalen glawr sy'n gofyn eu bod wedi ystyried effeithiau'r penderfyniad polisi ar yr iaith Gymraeg, gan amlygu unrhyw effeithiau sydd angen ystyriaeth bellach. Anfonir yr asesiadau at sylw Swyddog Safonau'r Gymraeg i'w hystyried a'u cymeradwyo, cyn eu cyflwyno i bwyllgor perthnasol y Brifysgol.

Darparwyd sesiwn hyfforddiant (14/12) gydag ysgrifenyddion pwyllgorau, yn eu hatgoffa o'u cyfrifoldeb yn unol â Safonau'r Gymraeg; hynny yw, i sicrhau bod yr Asesiadau Effaith yn cael eu cynnwys gydag unrhyw bapur sy'n cyflwyno penderfyniad polisi i bwyllgor y Brifysgol.

Yn ystod y flwyddyn academiaidd ymatebodd y Brifysgol i Holiadur Llinell Ymholi Allweddol Comisiynydd y Gymraeg, er mwyn ystyried i ba raddau mae ein trefniadau cyfredol yn cwrdd â gofynion y safonau llunio polisi. Wrth ystyried ein canfyddiadau, rydym wedi adnabod bod rhagor o waith i'w wneud yn y maes hwn, ac yn ystod y flwyddyn academiaidd nesaf byddwn yn bwrw ati i adolygu templed asesu effaith ac yn datblygu canllawiau, yn unol ag unrhyw gyngor neu arfer da sy'n cael ei rannu gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

4.3 Cydymffurfiaeth Safonau Gweithredu (Safonau 105-153)

Mae'r safonau gweithredu yn ymdrin â'r ffordd y mae'r Brifysgol yn defnyddio'r Gymraeg yn fewnol ac yn hyrwyddo'r cysyniad o weithle dwyieithog, gan roi hawliau ieithyddol i weithwyr mewn gweinyddiaeth fewnol. Yn ystod y cyfnod adrodd mae'r Brifysgol wedi bod yn diwygio ac ymgynghori ar Bolisi Defnydd Mewnol Y Gymraeg, er mwyn darparu arweiniad ynghylch sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle. Unwaith bydd y broses ymgynghori fewnol wedi cwblhau, byddwn yn hyrwyddo'r polisi ymhlith staff trwy dynnu sylw ato yn y Bwletin Staff wythnosol. Er mwyn datblygu'r polisi rydym wedi cymryd i ystyriaeth gyngor a chanllawiau Comisiynydd y Gymraeg.

Cedwir cofnod o sgiliau iaith pob aelod o staff ar system Adnoddau Dynol y Brifysgol (Resourcelink). Mae'r Brifysgol yn annog staff i adolygu a diweddarau eu cofnodion yn rheolaidd trwy'r system ar-lein. Darperir adroddiad ar sgiliau iaith staff i bwyllgorau'r Gymraeg, ac yn flynyddol fel rhan o'r Adroddiad Monitro Blynnyddol.

Rhoddir ystyriaeth ddyledus i'r iaith Gymraeg fel rhan o ganllawiau recriwtio a phenodi'r Brifysgol, ac mae adolygiad o'r canllawiau hyn ar y gweill ar hyn o bryd. Mae dyletswydd ar bob rheolwr i nodi'r gofyniad ieithyddol ar gyfer pob swydd wag, caiff hyn ei gofnodi ar ein system recriwtio ar-lein, Webrecruit; gyda'r bwriad o sicrhau fod gallu'r Brifysgol i ddarparu gwasanaethau dwyieithog ar draws pob uned yn flaenoriaeth.

Mae Adnoddau Dynol yn defnyddio system ar-lein ar gyfer recriwtio, ac mae'n ofynnol i ymgeiswyr lenwi ffurflen ar-lein. Mae'r system yn gwbl ddwyieithog ac felly gall pob ymgeisydd ddewis p'un ai i lenwi'r ffurflen yn Gymraeg ai peidio. Os bydd ymgeisydd yn gwneud cais am swydd drwy gyfrwng y Gymraeg, bydd y cyfweiliad, cytundeb cyflogaeth ac unrhyw ohebiaeth mewn perthynas â'u cyflogaeth o hynny ymlaen yn cael ei wneud drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae pob aelod o staff yn cael cynnig cyfle i ddysgu Cymraeg neu uwchsgilio eu lefel hyfedredd bresennol. Mae'r Brifysgol yn ymroddedig i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg trwy gynllunio a hyfforddi ei gweithlu, a chaiff cyrsiau eu cynnig i staff ar lefelau Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch. Cynigir cyrsiau hunan astudio ar-lein a chymorth tiwtor yn ogystal â chysiau a addysgir gan diwtor gyda gwaith cyfeirio. Gweler data yn Adran 8: Cyrsiau Dysgu a Datblygu Sgiliau Cymraeg.

At hyn mae gan y Brifysgol nifer o gynlluniau mewnol, er mwyn ceisio annog defnydd y Gymraeg:

Paned a Sgwrs

Mae cyfle i staff, myfyrwyr a'r cyhoedd i ddod at ei gilydd yn ein sesiwn wythnosol a chael cyfle i gael sgwrs yn y Gymraeg, ynghyd â chefnogi siaradwyr newydd. Mae rhwng 10 a 15 yn ymuno'n wythnosol. Yn ogystal a'r grŵp ar gampws Caerfyrddin, yn ystod y cyfnod adrodd sefydlwyd grŵp o'r newydd ar gampws Abertawe.

Côr y Gangen

Mae yna gyfle i gymdeithasu a chael hwyl yn y Gymraeg drwy ymuno gydag ymarferion Côr y Gangen, bob nos Fawrth. Mae aelodau'r côr yn cymryd rhan yng ngwasanaeth Dydd Gŵyl Dewi a Gwasanaeth Nadolig y Brifysgol. Mae gan y Côr aelodaeth o rhwng 20 - 30 aelod.

Cynllun Ffrind Iaith

Bob blwyddyn, mae Rhagoriaith yn croesawu athrawon i'n campysau i'w trochi yn y Gymraeg dros dymor yr Hydref a'r Gwanwyn ar Gynllun Sabothol Llywodraeth Cymru. Yn rhan o'r cynllun mae'r Brifysgol yn trefnu cynllun 'Ffrindlaith' sy'nparu'r athrawon gydag aelod o staff y Brifysgol er mwyn cwrdd ac ymarfer eu Gymraeg, gall hyn fod dros Teams, neu dros baned ar y campysau. Pwrpas y cynllun yw magu hyder yr athrawon a rhoi cyfle iddynt ymarfer y tu allan i'r dosbarth mewn awyrgylch anffurfiol a naturiol, jest sgwrs gyda ffrind newydd.

5. Codi Ymwybyddiaeth a Hyrwyddo Defnydd o'r Gymraeg

Codir ymwybyddiaeth o wasanaethau Cymraeg sydd ar gael trwy ddulliau amrywiol. Ar ddechrau pob blwyddyn academiaidd, cyhoeddir fideo at sylw pob myfyriwr newydd sy'n egluro'r gefnogaeth a'r cymorth sydd ar gael i siaradwyr Cymraeg. Mae'r fideo'n cynnwys gwybodaeth am y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Safonau'r Gymraeg, Y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg gan gynnwys Rhagoriaith a Pheniarth, Y Dystysgrif Sgiliau Iaith, Canolfan S4C – Yr Egin, a'r Atom yn nhref Caerfyrddin. At hyn, yn rhan o'r Digwyddiadau Croeso mae'r adran yn cwrdd â phob myfyriwr sydd wedi nodi eu bod yn medru'r Gymraeg, er mwyn rhoi gwybod iddynt bod modd dyrannu tiwtor personol sy'n siarad Cymraeg, a hefyd bod modd cyflwyno unrhyw waith ysgrifenedig fel rhan o asesiad neu arholiad; ac na fydd yn cael ei drin yn llai ffafriol na gwaith a gyflwynir yn y Saesneg fel rhan o'r asesiad neu arholiad hwnnw. Yn ystod y tymor cyntaf, rhennir Newyddlen y Gangen, sy'n tynnu sylw myfyrwyr at eu hawliau o dan drefn Safonau'r Gymraeg, gwybodaeth am gyrsiau datblygu sgiliau Cymraeg, megis Tystysgrif Sgiliau Iaith, ynghyd â gwybodaeth ynghylch cymuned Gymraeg y Brifysgol.

Er budd staff sy'n rhan o'r broses glirio, darparwyd rhestr yn amlinellu'r gefnogaeth sydd ar gael i fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg neu'n dymuno astudio drwy'r Gymraeg yn y Brifysgol; fel bod modd rhannu'r wybodaeth gyda myfyrwyr neu ddarpar fyfyrwyr sy'n ceisio gwneud cais am le yn y Brifysgol.

Cinio'r Gangen

Am y tro cyntaf ers cyfnod clo cynhaliwyd Cinio'r Gangen ym mis Ebrill yng Nghanolfan S4C yr Egin. Daeth 50 o fyfyrwyr a staff ynghyd ar gyfer y dathliad, gyda chinio ac adloniant gan y band lleol Am Dro.

Gwobrau Staff

Roedd y Brifysgol yn falch iawn o gydnabod cyflawniadau staff yn rhan o Gynhadledd Addysgu a Dysgu Nexus ym mis Mawrth. Cynhaliwyd y Seremoni Wobrwyo ar gampysau Caerfyrddin ac Abertawe yn ogystal ag ar lein. Cyflwynwyd 2 wobwr i staff i gydnabod eu gwaith blaenllaw mewn perthynas â'r Gymraeg, sef:

- **Gwobr Dysgu ac Addysgu Cyfrwng Cymraeg:**

Dyfarnwyd y wobwr i Heddwen Davies Athrofa Chwaraeon a Byw'n Iach, IMH. Dyma ddywedwyd amdani:

"Mae hi wedi sicrhau y gall myfyrwyr astudio cyfran sylweddol o'u cyrsiau yn y Gymraeg a sicrhau Ysgoloriaeth Ymchwil PhD cyfrwng Cymraeg arloesol. Cydweithiodd Heddwen gyda Rhagoriaith i ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg mewn modiwlau amrywiol a datblygu modiwl ffitrwydd cymunedol. Fel aelod allweddol o'r Is-Bwyllgor Cymraeg, sicrhodd grantiau sylweddol ar gyfer mentrau Cymraeg, gan gynnwys grant pwnc o £40,000 a £2,500 ychwanegol ar gyfer cynhadledd Gymraeg. Mae hi hefyd wedi cefnogi darpariaeth Gymraeg, wedi annog cydweithwyr i addysgu yn Gymraeg, a sicrhau bwrsariaethau ar gyfer profiadau gwaith myfyrwyr. Cydlynodd Heddwen glybiau allgyrsiol i fagu hyder myfyrwyr yn y Gymraeg. Mae ymroddiad Heddwen i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chefnogi myfyrwyr a chydweithwyr yn ei gwneud hi'n deilwng iawn o'r wobwr hon"

- **Ymrwymiad Personol i Ddysgu Cymraeg:** roedd hon yn wobwr newydd, a hynny er mwyn cydnabod cyfraniad ac ymrwymiad unigolyn i'r Gymraeg, gan weithio'n ddiwyd i gyfrannu at Strategaeth y Gymraeg. Dyfarnwyd y wobwr i Rhys Dart, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Myfyrwyr. Dyma ddywedwyd amdano:

"Mae'r ffaith ei fod wedi canolbwyntio ar ei sgiliau Cymraeg nid yn unig yn dangos ymrwymiad personol ond hefyd yn dangos pa mor ymwybodol yw e o bwysigrwydd yr iaith fel rhan o'r gwasanaeth y mae ei uned yn ei ddarparu i fyfyrwyr y Brifysgol. Yn fwy na hynny, mae hefyd yn eiriolwr ymarferol dros y Gymraeg o ddydd i ddydd yn y Brifysgol, gan nodi'n gyson pa mor bwysig yw sgiliau dwyieithog ei staff."

Gwobr Goffa Norah Issac

Dyfernir Gwobr Goffa Norah Isaac i'r myfyriwr a gyfrannodd fwyaf, yn nhyb y Brifysgol, at fywyd Cymraeg y sefydliad yn ystod y flwyddyn academiaidd o dan sylw. Lisa Evans enillodd y wobwr, myfyrwraig yn astudio BA Addysg Gynradd ar gampws Llambod. Bu'n Llywydd y Gymdeithas Gymraeg, ac yn gweithio'n ddiwyd fel llysgennad yn annog myfyrwyr i ymuno â'r amrywiaeth o weithgareddau y mae'r Brifysgol yn eu cynnig, ac i fanteisio ar bob cyfle unigol.

Ysgoloriaethau

Llwyddodd 72 o fyfyrwyr ennill Ysgoloriaeth Cymhelliant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Bydd deiliaid yr ysgoloriaeth yn derbyn £500 y flwyddyn am astudio o leiaf 40 credyd y flwyddyn drwy gyfrwng y Gymraeg.

Llwyddodd 4 o fyfyrwyr ennill Prif Ysgoloriaeth y Coleg Cymraeg, sy'n werth £1,000 y flwyddyn am astudio o leiaf 66% o'r cwrs drwy'r Gymraeg.

Mae'r Brifysgol yn defnyddio dyddiadau penodol yn y calendr er mwyn hyrwyddo argaeledd gwasanaethau Cymraeg:

Dydd Santes Dwynwen I ddathlu'r diwrnod rhoddwyd ar waith **'Gwobr Cariad a Charedigrwydd'**, gan fod Santes Dwynwen nid yn unig yn ddiwrnod i ddangos cariad ond i ddangos gwerthfawrogiad a diolch hefyd. Rhoddwyd cyfle i bawb enwebu un aelod o staff i ddiolch iddyn nhw drwy roi cerdyn personol iddynt yn y Gymraeg. Derbyniwyd dros drideg o enwebiadau.

Ymgyrch

#Defnyddia dy Gymraeg Ym mis Tachwedd ymunodd y Brifysgol yn ymgyrch Comisiynydd y Gymraeg i hyrwyddo #Defnyddia dy Gymraeg. Gwnaed defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn tynnu sylw myfyrwyr o'u hawliau i dderbyn gwasanaethau'r Brifysgol yn Gymraeg.

Dydd Miwsig Cymru Ar y 9fed o Chwefror, trefnwyd bod cerddoriaeth Gymraeg yn cael ei chwarae yn ein bwytaï ar bob campws, gan ddefnyddio rhestrau chwarae #dyddmiwsigcymru.

Dydd Gŵyl Dewi Cafwyd gwasanaeth Gŵyl Dewi ar gampysau Llambled a Chaerfyrddin, gyda Chôr y Gangen yn cymryd rhan. At hyn roedd gan y Ganolfan Gwasanaethau Cymraeg bresenoldeb ar gampws Caerfyrddin, er mwyn hyrwyddo'r cyfleoedd i astudio a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg i'n myfyrwyr. Roedd yn gyfle hefyd i dynnu sylw aelodau staff at ofynion Safonau'r Gymraeg.

6. Adrodd ar Gwynion (Safonau 163-177)

Bydd y Brifysgol yn ymdrin ag unrhyw gŵyn am y Gymraeg neu unrhyw agwedd o weithredu Safonau'r Gymraeg yn unol â pholisi cwynion y sefydliad. Mae dogfen *Gweithdrefn gwyno yn ymwneud â'r Gymraeg* wedi ei chymeradwyo, a'i chyhoeddi ar wefan y Brifysgol; sy'n cynnwys ffurflen gwyno ynghyd ag esboniad o sut bydd y Brifysgol yn gweithio i ddod o hyd i ddatrysiad. [Gweithdrefn gwyno yn ymwneud â'r Gymraeg.](#)

Yn ystod y cyfnod adrodd, 1 Awst 2023 – 31 Gorffennaf 2024 ni dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch gweithrediad Safonau'r Gymraeg neu unrhyw agwedd ar faterion yn ymwneud â'r Gymraeg.

7. Adrodd ar Sgiliau Cymraeg Staff

Sgiliau Cymraeg y rheini a gyflogid gan y Brifysgol ddiwedd Gorffennaf 2024.

Mae'n ofynnol i staff ddiweddarau a chynnal eu sgiliau iaith Gymraeg trwy'r Dangosfwrdd MY View. Yn ôl y cofnodion a ddaliwyd yn mis Tachwedd 2024, cofnodwyd bod gan gyflogeion y Brifysgol y lefel ganlynol o sgiliau iaith Gymraeg:

- (i) **Canran a nifer yr holl staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 1af Awst 2023 a 31ain Gorffennaf 2024.**
1,424 holl staff

	Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl	Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl	Ddim yn gallu siarad Cymraeg	Anhysbys
Staff Academaidd	15.8% (72)	26.8% (122)	39.9% (182)	17.5% (80)
Staff Gwasanaethau Cymorth a Phroffesiynol	20.5% (198)	25.3% (245)	38.3% (371)	15.9% (154)
Cyfanswm Holl Staff	19.0% (270)	25.8% (367)	38.8% (553)	16.4% (234)

Mae 44.7% (637) o'r holl staff yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, ac o'r rhain mae 19% (270) yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

- (ii) **Cymhariaeth yr holl staff a oedd yn gallu siarad Cymraeg rhwng 2022/23 a 2023/24**

	Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl	Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl	Ddim yn gallu siarad Cymraeg	Anhysbys
2022/23	19.6% (279)	26.5% (377)	39.8% (567)	14.1% (201)
2023/24	19.0% (270)	25.8% (367)	38.8% (553)	16.4% (234)
	+ or -	+ or -	+ or -	+ or -
Comparison	-0.6% (-9)	-0.7% (-10)	-1% (-14)	2.3% (+33)

Wrth gymharu â data 2022/23, mae gostyngiad ymylol o 0.6% o'r holl staff 23/24 sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, a gostyngiad bach o 0.7% o'r holl staff sy'n gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl.

- (iii) **Canran a nifer y staff sydd wedi'u lleoli ar gampysau yng Nghymru sy'n gallu siarad Cymraeg.**

	Yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl	Yn gallu siarad Cymraeg ond heb fod yn rhugl	Ddim yn gallu siarad Cymraeg	Anhysbys
2022/23	21.5% (279)	28.8% (374)	36.3% (472)	13.5% (175)
2023/24	21.9% (270)	29.2% (360)	34.5% (426)	14.4% (177)
	+ or -	+ or -	+ or -	+ or -
Cymhariaeth	-0.4% (-9)	-0.4% (-14)	-1.8% (-46)	0.9% (+2)

Mae 51.1% (630) o staff ar gampysau Cymru yn gallu siarad rhywfaint o Gymraeg, ac o'r rhain mae 21.9% (270) yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

O gymharu â data 2022/23, mae gwahaniaeth ymylol o 0.4% o staff 23/24 ar gampysau Cymru sy'n gallu siarad Cymraeg yn rhugl, ynghyd â gostyngiad bach o 0.4% o staff sy'n gallu siarad Cymraeg ond nid yn rhugl.

(iv) **Canran a nifer y staff academiaidd a oedd yn gallu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg:**

	Gallu addysgu	Methu addysgu	Ddim yn gwybod
Staff Academiaidd 2024	14.9% (68)	69.7% (318)	15.4% (70)
Staff Academiaidd 2023	13% (55)	68.6% (290)	18.4% (78)

Mae'r data yn dangos y bu cynnydd yn y nifer o staff academiaidd a oedd yn medru addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd, sef 13 yn rhagor o staff academiadd yn medru dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

8. Cyrsiau Dysgu a Datblygu Sgiliau Cymraeg

Anogir staff i ddysgu a gwella eu sgiliau iaith Gymraeg a rhoddir cyfle iddynt i gymryd cyrsiau iaith Cymraeg Gwaith, naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein.

Darpariaeth i Staff

Cwrs	Nifer wedi cofrestru
Lefel Mynediad	31
Lefel Sylfaen	18
Lefel Canolradd	6
Lefel Uwch	8
Cwrs Defnyddio'r Gymraeg mewn Cyfarfodydd wedi'i hwyluso gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol	3
Tystysgrif Sgiliau Iaith	3
Hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith ym maes addysg a hyfforddiant athrawon a sesiwn flasu i staff Addysg Gychwynnol Athrawon y Brifysgol	20
Hyfforddiant ar bwysigrwydd y Gymraeg (cyd-destun cenedlaethol ac o fewn y Brifysgol) a sesiwn flasu i staff Undeb y Myfyrwyr yng Nghaerdydd	30

Darpariaeth i Fyfyrwyr

Cwrs	Nifer wedi cofrestru
Lefel Mynediad - Cwrs Hunan-astudio i Fyfyrwyr	57
Academi Golau Glas	34 o fyfyrwyr Lefel 5 wedi cwblhau modwl Cymraeg yn y gweithle ym maes Heddlua.
Tystysgrif Sgiliau Iaith	46 wedi llwyddo (myfyrwyr PCYDDS a Choleg Sir Gâr)

9. Cyrsiau Hyfforddi Cyfrwng Cymraeg

Cynigiwyd y cyrsiau hyfforddiant cyfrwng Cymraeg isod yn ystod y flwyddyn.

Teitl	Staff Academaidd	Gwasanaethau proffesiynol	Cyfanswm	Canran
Modiwl e-ddysgu Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg	1	18	19	9.8%
Modiwl e-ddysgu Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	1	11	12	5.2%
Modiwl e-ddysgu Deall Iechyd a Diogelwch	1	8	9	4.0%
Modiwl e-ddysgu Creu Cynnwys Hygyrch	1	4	5	4.9%
Modiwl e-ddysgu Hanfodion Diogelu	0	0	0	0%
Iechyd meddwl a lles myfyrwyr	0	0	0	0%
Sesiwn Cynhadledd NEXUS	Tu hwnt i eiriau: dysgu drwy brofiadau defnyddio technoleg trochi a chaffael iaith		15	N/A

Cafodd Digwyddiad Sefydlu Corfforaethol sy'n rhan o gynefino staff ei gyflwyno'n ddwyieithog. Cyflwynwyd 2 sesiwn yn Gymraeg, gydag offer cyfieithu ar y pryd i hwyluso hyn. Roedd 78 aelod o staff yn bresennol.

Mae modiwlau e-ddysgu Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data ar gael i staff yn ddwyieithog. Ym mis Hydref 2024, cafodd modiwl e-ddysgu dwyieithog arall ei gyhoeddi at ddefnydd staff ar thema Cydraddoldeb Hiliol.

Mae hyfforddiant i staff a ddarperir gan y tîm Gwasanaethau Myfyrwyr ar gael yn Gymraeg, fel a ganlyn:

- Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl
- Gofalwch am eich cyfaill
- SafeTALK

Mae platfform ar-lein hunan-ddatblygiad y Brifysgol, FyMentor / MyMentor yn defnyddio botwm i alluogi llywio at y cynnwys Cymraeg. Fe wnaeth y Brifysgol lansio fersiwn wedi'i diweddararu ar Fedi 19th, 2024, gyda'r opsiwn i wneud dewis iaith yn y gosodiadau. At hyn mae pob elfen o'r Hwb Datblygu Staff, ar SharePoint a mewnwyd y staff ar gael yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am y canlynol:

- Gwybodaeth allweddol
- Hyfforddiant gorfodol
- Llesiant
- Sgiliau digidol
- LinkedIn Dysgu
- FyMentor
- Hyfforddi a Mentora
- Newydd yn eich Rôl
- Cymorth Gwasanaethau Proffesiynol
- Cymorth Dysgu ac Addysgu
- Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

10. Swyddi a Hysbysebwyd

Mae'r tabl isod yn cyfeirio at nifer y swyddi gwag a hysbysebwyd rhwng 1 Awst 2023 a 31 Gorffennaf 2024 gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol neu ddymunol ynghyd â chanran y swyddi lle penodwyd siaradwyr Cymraeg.

(i) Nifer o swyddi gwag a hysbysebwyd ar draws y Brifysgol (Safonau 145,178)

238 o swyddi wedi'u hysbysebu gan PCDDS rhwng 1 Awst 2023 and 31 Gorffennaf 2024

Categori	Nifer	%	% y siaradwyr Cymraeg a benodwyd
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol	25	10.5%	64%*
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol	107	45%	N/A
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0	0	0
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	106**	44.5%	N/A

* Yn 23/24, roedd 64% (16) o'r swyddi wedi'u llenwi gan siaradwyr Cymraeg. Ni chafodd 36% (9) eu llenwi oherwydd ansawdd yr ymgeiswyr a'u bod heb y sgiliau anghenrheidiol i gyflwani'r swydd.

** Nid yw'r swyddi gwag hyn wedi'u lleoli yng Nghymru. Maent wedi'u lleoli yn ein campysau yn Llundain a Birmingham, ac nid oes angen sgiliau iaith Cymraeg ar gyfer cyflawni'r rôl.

(ii) **Nifer o swyddi gwag a hysbysebwyd ar ein campysau yng Nghymru (Safonau 145, 178)**

130 o swyddi wedi'u hysbysebu ar ein campysau yng Nghymru

Categori	Nifer	%	% y siaradwyr Cymraeg a benodwyd
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol	25	19.2%	64%*
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol	105	80.8%	N/A
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0	0%	0%
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0	0%	N/A

* Yn 23/24, roedd 64% (16) o'r swyddi wedi'u llenwi gan siaradwyr Cymraeg. Ni chafodd 36% (9) eu llenwi oherwydd ansawdd yr ymgeiswyr a'u bod heb y sgiliau anghenrheidiol i gyflawni'r swydd.

Mae'r Brifysgol yn gweithio tuag at fedru adrodd ar ganran y siaradwyr Cymraeg a benodir i swyddi gwag, gyda'r Gymraeg yn sgil ddymunol.

(iii) **Cymhariaeth rhwng 2022/23 a 2023/24**

Categori	2022/23	2023/24	+ / -
Cyfanswm swyddi hysbysebwyd campysau Cymru	283	130	-153
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol	14.5% (41)	19.2% (25)	-16
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd gyda'r Gymraeg yn sgil dymunol	85.5% (242)	80.8% (105)	-137
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd	0	0	0
Nifer o swyddi gwag hysbysebwyd lle nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol	0	0	0

Fel yr adroddwyd yn tabl iii, mae canran y swyddi gyda'r Gymraeg yn sgil hanfodol a gafodd eu hysbysebu wedi cynyddu 4.7%.